Estyn
Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Rhwystrau rhag prentisiaeth

## Anawsterau a wynebir gan ddysgwyr o grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a'r rheini ag anableddau wrth ymgymryd â rhaglenni prentisiaeth.

## Tachwedd 2014

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau
- lleol;
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- colegau arbenigol annibynnol;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- Cymraeg i oedolion;
- dysgu yn y gwaith; a
- dysgu yn y sector cyfiawnder.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i
- Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.


Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**



**© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

| **Cynnwys** | **Tudalen** |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **1** |
| **Prif ganfyddiadau** | **3** |
| **Argymhellion** | **4** |
| **Rhwystrau rhag ymgymryd â phrentisiaeth** | **5** |
| Sut mae darparwyr DYYG yn nodi ac yn mynd i'r afael â materion ar gyfer dysgwyr duon a lleiafrifoedd ethnig | 6 |
| Mynd i'r afael â materion ar gyfer dysgwyr anabl | 8 |
| Stereoteipio'r rhywiau | 9 |
| Marchnata prentisiaethau | 11 |
| **Gweithredu polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Llywodraeth Cymru gan ddarparwyr DYYG** | **11** |
| **Atodiad 1: Dadansoddi data** | **13** |
| **Atodiad 2: Holiadur i ddarparwyr** | **19** |
| **Atodiad 3: Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg** | **21** |

## Cyflwyniad

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn amlinellu polisi llywodraeth y DU ar gyfer sicrhau bod pawb yn y DU yn cael eu trin yn deg, sicrhau nad ydynt yn cael eu gwneud yn destun gwahaniaethu a'u bod yn cael yr un cyfleoedd mewn bywyd. Mae Cynllun ac Amcanion Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru (2012-2016) yn amlinellu ei hamcanion ar gyfer pobl Cymru mewn perthynas â Deddf 2010. Mae'r amcanion hyn yn cynnwys cyfle cyfartal i bawb a'r hawl i bawb gael eu trin yn dda a pheidio â bod yn destun gwahaniaethu. Yn ei lythyr cylch gwaith blynyddol i Estyn 2013-2014, gofynnodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau i Estyn gynnal arolwg i rwystrau rhag prentisiaethau sy'n codi yn sgil unrhyw anawsterau gan ddysgwyr o grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a'r rheini ag anableddau wrth ymgymryd â rhaglenni prentisiaeth. Mae'r arolwg hefyd yn nodi materion stereoteipio'r rhywiau mewn prentisiaethau'r sectorau galwedigaethol.

Hwn yw'r cyntaf o ddau adroddiad mewn cyfres o ddau arolwg, a bydd yr ail yn canolbwyntio ar astudiaethau achos arfer dda y gellir eu defnyddio i lywio gwelliant.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi materion cyfredol sy'n effeithio ar ddysgwyr o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a dysgwyr anabl sy'n dilyn prentisiaethau yng Nghymru. Mae sail y dystiolaeth yn cynnwys dadansoddiad o ddata a holiaduron a'r deilliannau o gyfarfodydd amrywiol a gynhaliwyd gan yr arolygwyr. Mae'r adroddiad hefyd yn adlewyrchu barnau darparwyr dysgu yn y gwaith (DYYG), dysgwyr ac aelodau rhwydweithiau ardal lleol 14-19 ynglŷn â'r rhwystrau a wynebir gan ddysgwyr o grwpiau lleiafrifol o ran cael mynediad i brentisiaethau a chyfranogi ynddynt. Mae'r arolwg yn tynnu sylw at rai enghreifftiau o arfer dda gan ddarparwyr sy'n ceisio goresgyn y rhwystrau hyn.

Mae nifer y dysgwyr duon a lleiafrifoedd ethnig a dysgwyr anabl (yn seiliedig ar y rhai mewn dysgu sydd wedi datgan eu hunain bod ganddynt anabledd) yn fach o gymharu â grwpiau eraill o ddysgwyr, felly mae cafeat ynghlwm wrth unrhyw gasgliadau a wneir o'r set gyfyngedig o ddata sydd ar gael o ran pa mor ddibynadwy a dilys ydyw. Mae'r penderfyniad polisi i adnabod ac adlewyrchu barn y dysgwr ei hun o ba un a oes ganddo/ganddi anabledd neu beidio, yn hytrach na'u 'nodi' fel dysgwyr anabl, hefyd yn ei gwneud hi'n anodd dadansoddi data o ran mathau o anabledd. Mae llawer mwy o ddata ar gael ynglŷn â stereoteipio'r rhywiau. Cafwyd y data a ddefnyddir yn yr adolygiad hwn o adroddiad Llywodraeth Cymru 'Dysgu Gydol Oes yng Nghymru' (Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru) a chyfrifiad 2011.

Mae dadansoddiad o'r setiau data hyn yn awgrymu y gallai fod tangynrychiolaeth o ddysgwyr o gymunedau duon a lleiafrifoedd ethnig ar raglenni prentisiaeth ar hyd a lled Cymru. Dylid nodi, fodd bynnag, fod cafeatau'n gymwys wrth wneud y cymariaethau hyn. Mae angen astudio ymhellach i bennu a yw rhwystrau'n wahanol neu a ymdrinnir â nhw'n fwy effeithiol mewn ardaloedd trefol mawr â phoblogaeth fawr o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig 16 i 24 oed o gymharu ag ardaloedd gwledig Cymru.

Ymatebodd 20 o'r 24 o ddeiliaid contract Dysgu yn y Gwaith yng Nghymru i holiadur ynglŷn â rhwystrau i'w rhaglenni prentisiaeth (gweler Atodiad 2). Ymwelodd

arolygwyr â naw o'r 20 o ddarparwyr i gael gwybodaeth ychwanegol. Fel rhan o'r ymweliadau hyn, cyfarfu'r arolygwyr â nifer o ddysgwyr duon a lleiafrifoedd ethnig a dysgwyr anabl sydd ar raglenni prentisiaeth ar hyn y bryd i drafod y rhwystrau yr oeddent yn eu hwynebu. Bydd cyfarfodydd pellach yn cael eu cynnal gyda sampl o ddysgwyr yn ystod ail flwyddyn yr adolygiad hwn er mwyn pennu mwy o nodweddion arfer orau.

Yn ogystal, cyfarfu'r arolygwyr â swyddogion awdurdod lleol mewn chwech o rwydweithiau ardal lleol 14-19[1] a staff mewn naw o ddarparwyr dysgu yn y gwaith yn yr ardaloedd o Gymru sydd â'r gyfran fwyaf o ddinasyddion duon a lleiafrifoedd ethnig.

Rhoddodd ychydig o gyflogwyr eu barnau mewn cyfarfodydd rhwydweithiau 14-19 hefyd. Fodd bynnag, bydd Estyn yn gwneud rhagor o waith gyda chyflogwyr ar gyfer cam nesaf yr adolygiad hwn er mwyn nodi'u hymdrechion i gael gwared ar rwystrau i grwpiau dysgwyr penodol.

Mae'r adolygiad hefyd yn rhoi trosolwg o'r materion yn ymwneud â stereoteipio'r rhywiau ac yn nodi meysydd dysgu lle mae stereoteipio'r rhywiau i'w weld o hyd. Ceir enghreifftiau o gamau penodol sy'n cael eu cymryd ar hyn o bryd mewn ychydig o feysydd dysgu i fynd i'r afael â hyn.

Bu arolygwyr hefyd yn ystyried pa mor dda y mae darparwyr DYYG wedi gweithredu agweddau ar bolisïau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Llywodraeth Cymru.

[1] Mae gan bob awdurdod lleol yng Nghymru rwydwaith dysgu 14-19 sy'n cynnwys cynrychiolwyr o sectorau addysg a hyfforddiant lleol. Mae'r grŵp hwn yn gweithredu 'Llwybrau Dysgu' strategaeth 14-19 Llywodraeth Cymru er mwyn gwella cyfleoedd addysg a hyfforddiant i'r rhai 14 i 19 oed.

## Prif ganfyddiadau

1 Mae dadansoddi data ar y niferoedd sy’n ymgymryd â phrentisiaethau o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn awgrymu y gall fod tangynrychiolaeth gan y grwpiau hyn.

2 Yn gyffredinol, mae darparwyr yn ymwybodol o’r rhwystrau sy’n atal dysgwyr o grwpiau lleiafrifol a’r rheiny ag anableddau rhag ymgymryd â rhaglenni prentisiaeth. Maent yn mynd ati’n rheolaidd i ddadansoddi nifer a chyfran y dysgwyr hyn er mwyn nodi ble mae angen iddynt wella cynrychiolaeth o blith grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a phobl anabl.

3 Mae llawer o ddarparwyr yn rhoi mesurau ar waith i gynorthwyo dysgwyr o’r grwpiau hyn ac i wella recriwtio, er enghraifft, drwy weithio’n agos ag ysgolion lleol sydd â phoblogaeth uchel o ddisgyblion duon a lleiafrifoedd ethnig.

4 Mae tystiolaeth gan ddarparwyr, cyflogwyr a grwpiau cymunedol yn awgrymu bod y rhwystrau sy’n atal dysgwyr o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a’r rheini ag anableddau rhag ymgymryd â rhaglenni prentisiaeth yn cynnwys:

- diffyg ymwybyddiaeth o brentisiaethau gan rieni, cyflogwyr a dysgwyr eu hunain;
- ychydig iawn o fodelau rôl prentisiaeth o blith y cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig neu grwpiau pobl anabl;
- anawsterau o ran dod o hyd i leoliadau gwaith addas, yn enwedig lle mae cyflogwyr o’r farn y bydd angen darparu cymorth ychwanegol i ddysgwyr;
- gwahaniaethu go iawn neu ganfyddedig;
- anawsterau iaith i fyfyrwyr sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol a gwahaniaethau diwylliannol;
- diffyg manteisio ar y cymorth sydd ar gael i ddysgwyr neu beidio â’i ddefnyddio’n llawn;
- pryder rhieni na fydd y bobl ifanc yn gallu ymdopi o bosibl; a
- chydlynu annigonol rhwng ysgolion, cyflogwyr, darparwyr DYYG a sefydliadau cymunedol lleol i hyrwyddo prentisiaethau.

5 Yn gyson, mae mwy o ferched wedi ymgymryd â phrentisiaethau na dynion yn ystod y tair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, mae stereoteipio’r rhywiau i’w weld yn gadarn o hyd o ran y mathau o brentisiaethau a ddewisir gan bobl ifanc.

6 Mae darparwyr yn gweithio i fynd i’r afael â materion stereoteipio’r rhywiau. Fodd bynnag, er bod ychydig o ddarparwyr yn mesur canlyniadau’r gwaith hwn, ychydig o dystiolaeth sydd i ddangos ei effaith o ran newid patrymau y rhai sy’n ymgymryd â phrentisiaethau.

7 Mae trefniadau da gan y mwyafrif o ddarparwyr i sicrhau parhau i gydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010, ond nid ydynt yn gallu dangos bod hyn yn arwain at unrhyw welliant y gellir ei fesur o ran lleihau rhwystrau neu stereoteipio.

## Argymhellion

**Er mwyn gwella'r niferoedd sy'n ymgymryd â phrentisiaethau, dylai Llywodraeth Cymru barhau i wneud y canlynol:**

A1 defnyddio 'Wythnos Genedlaethol Prentisiaethau' i dargedu hyrwyddo prentisiaethau i rieni a dysgwyr o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a dysgwyr anabl, ac i fynd i'r afael â stereoteipio'r rhywiau;

A2 mewn partneriaeth â darparwyr DYYG, ysgolion, grwpiau cymunedol pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, grwpiau sy'n cynrychioli pobl anabl, Gyrfa Cymu a Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru, comisiynu ymgyrch farchnata Cymru gyfan i gynyddu ymwybyddiaeth a hyrwyddo prentisiaethau i grwpiau sydd ar ymylon cymdeithas ac i fynd i'r afael â stereoteipio'r rhywiau. Dylai'r gynulleidfa darged gynnwys rhieni, athrawon, dysgwyr a chyflogwyr;

A3 gwneud yn siŵr bod cyflogwyr yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael iddynt wrth dderbyn prentisiaid ag anghenion cymorth neu ddysgu penodol, gan gynnwys y rheini sydd angen cymorth arnynt i ddatblygu'r Saesneg;

A4 adolygu'r dyraniad presennol o leoedd prentisiaeth er mwyn bodloni'r galw lleol, gan gynnwys annog sefydliadau'r sector cyhoeddus i dderbyn prentisiaid, gyda ffocws ar recriwtio o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a dysgwyr ag anabledd; a

A5 gweithio gyda darparwr DYYG i ddatblygu ymhellach eu polisïau cydraddoldeb ac amrywiaeth a'u dulliau gweithredu, gan gynnwys rhannu arfer orau.

**Dylai darparwyr dysgu yn y gwaith:**

A6 weithio'n agosach ag ysgolion, cyflogwyr, arweinwyr cymunedol a sefydliadau sy'n cynrychioli dysgwyr duon a lleiafrifoedd ethnig a dysgwyr anabl er mwyn gwella ymwybyddiaeth o brentisiaethau;

A7 gweithio'n fwy effeithiol gyda darparwyr addysg lleol ac asiantaethau eraill i wneud yn siŵr bod profiad ac adnoddau gwerthfawr yn cael eu rhannu i gynorthwyo prentisiaid o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig;

A8 gweithio gydag arweinwyr cymunedol i nodi cydlynwyr cymunedol sy'n barod i gydlynu camau gweithredu i gynyddu ymwybyddiaeth o brentisiaethau yn y cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig;

A9 defnyddio modelau rôl i hyrwyddo prentisiaethau yn y gymuned; a

A10 gweithio gyda Llywodraeth Cymru a chyrff dyfarnu i ddatblygu mwy o ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael i gyflwyno rhai elfennau o gymhwyster ar gyfer dysgwyr ag anableddau.

## Rhwystrau rhag ymgymryd â phrentisiaeth

8 Nid yw llawer o'r materion sy'n atal dysgwyr rhag dilyn llwybr prentisiaeth yn rhai penodol i ddysgwyr duon a lleiafrifoedd ethnig nac i'r rheini ag anableddau. Er enghraifft, efallai nad oes gan rieni ddigon o wybodaeth am gyfleoedd ar gyfer DYYG neu efallai ei bod yn well ganddynt i'w plant aros ymlaen yn yr ysgol neu goleg a mynd ymlaen i addysg uwch.

9 Nid yw disgyblion mewn ysgolion bob amser yn cael gwybod am y llwybr dysgu prentisiaeth nac yn cael digon o wybodaeth am sut i fanteisio ar yr opsiwn hwn, ac mae darparwyr prentisiaethau yn adrodd bod rhai ysgolion yn amharod i weithio gyda hwy i gynyddu ymwybyddiaeth o brentisiaethau ymhlith disgyblion. Fodd bynnag, mae ychydig o enghreifftiau o arfer dda o ran gweithio gyda'i gilydd. Er enghraifft, mewn un achos, cafodd dysgwyr o'r gymuned pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig ei wahodd i ddychwelyd i'w ysgol uwchradd i siarad gyda disgyblion am ei brofiad cadarnhaol o ddilyn prentisiaeth.

10 Un rhwystr allweddol yw diffyg argaeledd lleoliadau gwaith i roi 'blas' i bobl ifanc ar y byd gweithio. Gall hyn fod yn gymwys i bob dysgwyr, nid yn unig i'r dysgwyr hynny o'r grwpiau y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn. Mae anawsterau ychwanegol weithiau, fodd bynnag, wrth ddod o hyd i leoliadau gwaith ar gyfer dysgwyr duon a lleiafrifoedd ethnig am mai dealltwriaeth gyfyngedig sydd gan gyflogwyr o anghenion diwylliannol y dysgwyr hyn neu'r cymorth sydd ar gael iddynt. Mae grwpiau cymunedol wedi darparu tystiolaeth anecdotaidd o bobl ifanc unigol o grwpiau dan anfantais sydd wedi methu â chael hyd i leoliadau gwaith.

11 Mae ychydig o ddarparwyr a grwpiau cymunedol yn adrodd y byddai cynnig cymhellion arbennig i gyflogwyr i dderbyn dysgwyr o'r gymuned pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig neu ddysgwyr anabl yn annog nifer uwch o gyflogwyr i gynnig lleoliadau gwaith i fwy o ddysgwyr. Dywed darparwyr nad yw contractau'r llywodraeth yn pennu y dylai isafswm nifer o brentisiaethau gael eu cynnig fel amod yn y contract. Er bod prif ffocws Polisi Buddion Cymunedol Llywodraeth Cymru ar gyfleoedd ar gyfer unigolion a grwpiau dan anfantais drwy recriwtio a hyfforddiant wedi'u targedu, nid oes gofyniad statudol i sicrhau bod nifer o leoedd prentisiaeth ar gael ar gyfer dysgwyr duon a lleiafrifoedd ethnig neu i bobl ag anabledd.

12 Mae rhyw 25% o ddarparwyr a ymatebodd i holiadur yr arolwg o'r farn fod iaith a materion diwylliannol yn rhwystrau i aelodau grwpiau lleiafrifol a allai fod eisiau mynd yn brentisiaid. Er bod y rhan fwyaf o'r cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yng Nghaerdydd, Casnewydd ac Abertawe yn siaradwyr Saesneg rhugl, mae anghenion llythrennedd gan rai dysgwyr o hyd pan fyddant yn gadael yr ysgol, ac nid yw'r medrau mathemategol sydd eu hangen ar gyfer prentisiaeth ganddynt.[2] Ystyrir ei bod yn angenrheidiol i ddysgwyr grwpiau lleiafrifol, yn ogystal â dysgwr eraill, fod wedi cyrraedd hyfedredd yn Saesneg ar Lefel 1 o leiaf cyn cael eu derbyn ar

[2] Mae'r cyfrifiad diweddar o'r boblogaeth yng Nghymru (2011) yn dangos mai dim ond 2% o gartrefi sy'n gartrefi lle na siaredir Saesneg. Yn yr ardaloedd lle ceir poblogaeth uchel o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yng Nghaerdydd, Casnewydd ac Abertawe, mae llawer o'r dinasyddion duon a lleiafrifoedd ethnig bellach yn drydedd neu'n bedwaredd genhedlaeth.

brentisiaeth. Mae dysgwyr ag anghenion iaith yn gallu mynd i ddosbarthiadau dysgu cymunedol rhan-amser mewn Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (SSIE). Fodd bynnag, mae'n aml yn anodd i ddysgwyr duon a lleiafrifoedd ethnig ddod o hyd i amser i gynnal neu wella eu datblygiad yn y Saesneg pan fyddant yn dechrau prentisiaeth oherwydd gofynion yr hyfforddiant a gwaith. Anaml y bydd darparwyr DYYG yn darparu cymorth iaith wedi'i dargedu fel rhan o gymorth medrau hanfodol i'r dysgwyr hyn.

13 Mae'r diffyg gweithio effeithiol mewn partneriaeth rhwng darparwyr addysg a hyfforddiant ac asiantaethau cyflogwyr yn golygu nad yw profiad ac adnoddau gwerthfawr yn cael eu defnyddio i gynorthwyo prentisiaid duon a lleiafrifoedd ethnig. Mae gan lawer o diwtoriaid SSIE mewn partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned y ddealltwriaeth a'r medrau i weithio gyda dysgwyr o'r gymuned ethnig lleiafrifol ac i hwyluso gweithio mewn partneriaeth rhwng dysgwyr, darparwyr lleol a chyflogwyr lleol.

**Sut mae darparwyr DYYG yn nodi ac yn mynd i'r afael â materion ar gyfer dysgwyr duon a lleiafrifoedd ethnig**

14 Mae pob un o'r darparwyr yn dadansoddi data er mwyn nodi bylchau mewn cynrychiolaeth. Yn y mwyafrif o achosion, bydd uwch reolwyr yn goruchwylio'r gwaith hwn ac yn sefydlu gweithgorau gyda staff gweithredol i roi strategaethau ar waith i wella cyfraddau cynrychiolaeth grwpiau lleiafrifol. Bydd darparwyr yn monitro'r cynlluniau gweithredu o'r grwpiau hyn yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod camau'n cael eu cwblhau a fydd yn arwain at welliant. Prif nod darparwyr wrth ymgymryd â'r gwaith hwn yw sicrhau bod cyflawniad pob dysgwr, gan gynnwys y rheini o grwpiau targed penodol, o safon uchel. Mae'r darparwyr mwyaf effeithiol yn cymharu eu data ar ddysgwyr grwpiau lleiafrifol â gwybodaeth ddemograffig arall, gan gynnwys y boblogaeth grwpiau lleiafrifol gyffredinol yn eu hardal. Maent hefyd yn cymharu nifer y dysgwyr sy'n ymgymryd â phrentisiaethau yn ôl pob rhanbarth, aelod consortiwm unigol a math o raglen. Mae mwyafrif y darparwyr yn defnyddio cyfartaleddau sector i osod targedau ar gyfer ymgysylltiad dysgwyr o grwpiau lleiafrifol. Mae ychydig o ddarparwyr wedi rhoi camau ar waith i dargedu a chynorthwyo'r dysgwyr hyn. Nid oes arweiniad strategol cyffredinol, fodd bynnag, ar sut y dylent gael eu recriwtio neu'u cynorthwyo, nag unrhyw fesur cyson o effaith camau a gymerwyd. Tystiolaeth anecdotaidd o lwyddiant sydd ar gael yn bennaf felly.

15 Yn ychwanegol at eu prosesau monitro ar gyfer y grwpiau dethol o ddysgwyr, mae llawer o ddarparwyr yn gweithio gyda dysgwyr presennol ac yn defnyddio canlyniadau arolygon dysgwyr i gael dealltwriaeth well o'u hanghenion cymorth. Yng Nghaerdydd, mae un darparwr hyfforddiant wedi cyflogi hyrwyddwr dysgwyr yn ddiweddar i gyfarfod â dysgwyr ac i adrodd eu barnau yn ôl. Mae materion a godir yn cael eu bwydo i fecanweithiau cymorth y darparwr er mwyn helpu hyrwyddo gwelliant.

16 Mae ychydig o ddarparwyr hefyd wedi cyflwyno staff cymorth cymunedol lleol i weithio'n uniongyrchol ag ysgolion a chymunedau i gynyddu'r ymwybyddiaeth o brentisiaethau. Yn gyffredinol, mae'r mentrau hyn yn canolbwyntio ar anghenion pob dysgwr ac nid ydynt yn targedu grwpiau penodol. Yng ngorllewin Cymru, fodd

bynnag, mae un darparwr wedi penodi rheolwr cymorth dysgu sydd â phrofiad o gynorthwyo dysgwyr o grwpiau lleiafrifoedd ethnig a dysgwyr anabl. Mae ganddi'r profiad penodol i ddarparu cyngor ac arweiniad priodol i ddarpar ddysgwyr. Nid yw effaith y gwaith hwn wedi'i mesur na'i rhannu eto, fodd bynnag.

17 Mae ardal un darparwr DYYG yn cynnwys cymunedau Sipsiwn a Theithwyr mawr yn ogystal â chymunedau Ghurka. Er mwyn sicrhau ymgysylltu a chymorth da ar gyfer y cymunedau hyn, mae pob aelod o staff hyfforddi'r darparwr wedi cael hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth corfforaethol ynglŷn â chymunedau Sipsiwn a Theithwyr, ac mae'r staff wedi cyflawni cymwysterau Lefel 2 mewn Cydraddoldeb ac Amrywiaeth. Mae'r darparwr yn mynychu grwpiau rhwydweithio sy'n hyrwyddo gwaith gyda grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig er mwyn annog ymgymryd â phrentisiaethau. Hefyd, mae'r darparwr wedi sefydlu cysylltiadau effeithiol gyda'i raglen leol dysgu oedolion yn y gymuned lle mae'r staff wedi darparu addysgu SSIY ar gyfer dysgwyr cyn iddynt gychwyn ar raglen prentisiaeth.

18 Mae darparwr arall wedi cyflwyno sesiynau rhagflas prentisiaeth yn y gymuned leol ac mae ei gynrychiolwyr yn mynychu digwyddiadau cymunedol. Mae'r darparwr hwn yn aelod o grwpiau ffocws cymunedol, lle bydd cynrychiolwyr grwpiau lleiafrifol yn mynychu i fynegi'u pryderon. Hefyd, mae'r darparwr yn gwahodd cynrychiolwyr o sefydliadau sy'n cynrychioli grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a grwpiau pobl anabl er mwyn cadw cysylltiadau â hwy. Mae hyn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r darparwr am rwystrau a wynebir gan y grwpiau hyn a delir â materion yn brydlon.

19 Yn Wrecsam, mae niferoedd cynyddol o bobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig sy'n gweithio mewn ffatrïoedd lleol. Mewn ymateb i hyn, mae darparwr lleol wedi gweithio gyda chyflogwyr i gynhyrchu deunyddiau yn iaith gyntaf y gweithwyr. Un enghraifft o hyn yw taflen iechyd a diogelwch i staff sy'n dilyn cymhwyster mewn rheoli perfformiad. Mae darparwr arall wedi cynhyrchu cryno ddisg ar uned gyflwyniadol ar gyfer cymhwyster gweithgynhyrchu bwyd sydd wedi'i chyfieithu i chwech o ieithoedd cymunedol, gan ddefnyddio cyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop.

20 Fodd bynnag, er gwaetha'r mentrau hyn a mentrau tebyg, dywedodd lleiafrif o ddarparwyr wrth Estyn eu bod yn dal i'w chael hi'n anodd ymgysylltu'n llawn â chymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig oherwydd materion diwylliannol. Er enghraifft, pan geisiodd un darparwr recriwtio menywod Mwslimaidd ar brentisiaethau yn ardal Bae Caerdydd, nid oedd aelodau'r gymuned leol yn caniatáu i'r darparwr siarad â'r menywod ynglŷn â dechrau hyfforddiant neu waith.

**Astudiaeth achos arfer dda: Associated Community Training (ACT)**

Mae Caerdydd wedi gweld twf cyflym yn yr ysgolion lleol o ddisgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol (SIY) o amrywiaeth o gefndiroedd ethnig a chymunedau Roma. Mae hyn wedi arwain at yr angen i gyflogi mwy o gynorthwywyr addysgu dwyieithog sy'n siarad Saesneg ac un neu fwy o ieithoedd ethnig lleiafrifol. Mae tîm Gwasanaeth Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig a Theithwyr (EMTAS) Awdurdod Lleol Caerdydd wedi mynd at ACT, sef darparwr lleol dysgu yn y gwaith, i ofyn am gyflwyno hyfforddiant penodol i'r grŵp hwn o gynorthwywyr addysgu. Maent yn dilyn yr un fframwaith cymwysterau â'r cynorthwywyr addysgu eraill ar y rhaglen ond mae gweithdai a gweithgareddau wedi'u haddasu i fodloni'u hanghenion

penodol. Yn ogystal, mae'r darparwr yn cyflwyno gweithdai ar y cymhwyster Cefnogi Addysgu a Dysgu mewn Ysgolion, sydd wedi'i gynllunio ar gyfer cynorthwywyr addysgu a fydd yn gweithio gyda disgyblion o gymunedau lleiafrifoedd ethnig. Mae tîm EMTAS awdurdod lleol Caerdydd yn cyflwyno hyfforddiant pellach i'r dysgwyr hyn. Mae'r rhaglen hon ar y cyd wedi cael ei chynnal yn llwyddiannus ers pedair blynedd erbyn hyn.

Mae cyfraddau cyrhaeddiad ar y rhaglen hon yn gyson dda. Mae llawer o ddysgwyr EMTAS sy'n cwblhau fframwaith Lefel 2 yn mynd ymlaen i gwblhau eu Fframwaith Lefel 3 yn llwyddiannus. Ers gorffen eu hyfforddiant EMTAS, mae pedwar cynorthwyydd addysgu wedi cychwyn ar hyfforddiant athrawon, ac mae dau wedi dod o hyd i waith fel athrawon ysgol uwchradd.

**Mynd i'r afael â materion ar gyfer dysgwyr anabl**

21 Yn gyffredinol, mae darparwyr yn nodi ac yn darparu cymorth priodol i ddysgwyr ag anableddau corfforol ac anawsterau dysgu, gan gynnwys dyslecsia. Mae ganddynt strategaethau priodol i fynd i'r afael â phryderon dysgwyr a'u rheini a gofalwyr ynglŷn â'u parodrwydd i gychwyn ar gyflogaeth. Hefyd, mae gan lawer o ddarparwyr gysylltiadau da â gwasanaethau cymorth anabledd lleol, sy'n eu helpu i gefnogi anghenion dysgwyr unigol.

22 Mae darparwyr yn adrodd bod rhieni dysgwyr ag anabledd yn gallu bod yn rhy warchodol weithiau pan fydd eu mab neu ferch yn ystyried prentisiaeth, a gallant beidio â llawn sylweddoli galluoedd cyflogaeth ymarferol eu plentyn. Er mwyn goresgyn hyn, mae llawer o ddarparwyr yn darparu cymorth cynghori i helpu lleddfu ofnau rheini ac i hyrwyddo potensial y prentisiaid hyn i'r eithaf.

23 Nid yw'n ymddangos bod rhai elfennau o'r rhaglen hyfforddiant prentisiaeth yn ddigon hyblyg i ddarpar ddysgwyr. Er enghraifft, mae dysgwyr ag anabledd penodol fel nam ar y clyw neu nam ar y lleferydd yn pryderu, er y gallent lwyddo yn y rhan fwyaf o elfennau'r fframwaith cymwysterau, na fyddent o bosibl yn gallu cwblhau'u fframwaith llawn oherwydd eu nam.

24 I oresgyn rhai o'r rhwystrau hyn, mae darparwyr weithiau'n tynnu sylw at lwyddiannau yn eu llenyddiaeth hyrwyddo ac mewn digwyddiadau gwobrwyo er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth cyflogwyr ynglŷn â gallu potensial dysgwyr anabl yn y gweithle.

25 Mewn un enghraifft dda, fe wnaeth dysgwyr â nam difrifol ar ei glyw a oedd ar raglen lletygarwch ennill gwobrau 'Ysbrydoli'[3] am gyfranogi mewn dysgu yn y gweithle. Adeiladodd y swyddog hyfforddi hyder y dysgwr trwy ddarparu cymorth un i un, ac o ganlyniad, ymgymerodd y dysgwr â chymhwyster Lefel 2 mewn coginio proffesiynol ac mae bellach wedi symud ymlaen at raglen Lefel 3.

26 Mewn enghraifft arall, roedd dysgwr ar brentisiaeth gwasanaethau cwsmeriaid Lefel 2 wedi'i chofrestru'n ddall. Gweithiodd y darparwr a'r cyflogwr gyda'i gilydd i sicrhau ei bod yn cael yr help, y gefnogaeth a'r arweiniad ymarferol i'w galluogi i gwblhau ei

[3] Mae Gwobrau Ysbrydoli! Niace Dysgu Cymru yn cydnabod yr ymdrech a'r ymrwymiad rhagorol gan ddysgwyr a thiwtoriaid i gynorthwyo dysgwyr wrth fynd ar drywydd eu nodau a gwireddu'u breuddwydion.

chymhwyster. Roedd hyn yn cynnwys darparu sgrin a bysellfwrdd mawr yn y gweithle. Byddai ei hasesydd yn trafod ei pherfformiad yn rheolaidd â hi, ac yn e-bostio crynodeb o'u trafodaeth a'u cynllun gweithredu ati. Roedd y dysgwr wedyn yn gallu mwyhau hwn ar ei sgrin gartref ac yn y gweithle. Roedd unrhyw waith yr oedd yn ei gynhyrchu yn cael ei fwyhau i dri gair fesul llinell. Aeth y dysgwr yma ymlaen at gymhwyster Lefel 3, ac mae wedi'i gwblhau'n llwyddiannus erbyn hyn.

27 Mae prentis sydd ar brentisiaeth manwerthu yn dioddef o gyflwr canfyddiadol y llygaid, sy'n golygu nad yw'n gallu darllen ac ysgrifennu'n effeithiol. Roedd y cyflwr wedi achosi cryn straen i'r dysgwr pan oedd yn ei harddegau yn yr ysgol. Gweithiodd yr asesydd DYYG yn agos â hi i'w helpu i oresgyn yr anawsterau hyn. Roedd strategaethau cymorth yn cynnwys papur lliw priodol, gan ei galluogi i ddarllen yn gliriach, a darllen dogfennau ar goedd i'r dysgwr er mwyn sicrhau ei bod yn deall. Hefyd, adroddodd y dysgwr yn ôl am ei phrofiadau yn goresgyn ei salwch i ddysgwyr eraill er mwyn eu helpu nhw.

28 Fodd bynnag, er gwaetha'r enghreifftiau calonogol hyn, mae darparwyr yn dal i'w chael yn anodd annog cyflogwyr i dderbyn dysgwyr ag anableddau.

**Stereoteipio'r rhywiau**

29 Fel y dengys ffigur 7, mae cyfran y dysgwyr sy'n ferched ar brentisiaethau yn sylweddol uwch nag ar gyfer dynion mewn trin gwallt a harddwch, gyda 92% o'r dysgwyr yn ferched ac 8% yn ddynion. Mae darlun tebyg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal gydag 83% o'r dysgwr yn ferched ac 17% yn ddynion, a Gweinyddu Busnes a'r Gyfraith gyda 70% o'r dysgwyr yn ferched a 30% yn ddynion. Mewn Adeiladu, Cynllunio a'r Amgylchedd Adeiledig a Pheirianneg a Thechnolegau Gweithgynhyrchu, mae cyfran y dysgwyr sy'n ddynion yn sylweddol uwch nag ar gyfer merched, gyda 99% a 91% yn y drefn honno. Ar draws yr holl brentisiaethau, mae 44% o'r dysgwyr yn ddynion a 56% yn ferched.

30 Mae'r holl ddarparwyr yn ymwybodol o'r angen parhaus i nodi a mynd i'r afael â stereoteipio'r rhywiau. Mewn astudiaeth ddiweddar o rolau menywod yng ngweithlu Cymru, a gynhaliwyd gan Chwarae Teg'[4], tynnwyd sylw at y ffaith fod stereoteipio'r rhywiau yn parhau yn nodwedd gref yn y gymdeithas Brydeinig. Cadarnhaodd canlyniadau eu hastudiaeth fod llawer o bobl yn coleddu barnau am ba swyddi sy'n addas i ddynion a pha rai sy'n addas i fenywod. Er enghraifft, dywedodd ychydig o dan 80% o fenywod y gwnaed arolwg ohonynt yn yr astudiaeth fod bod yn adeiladwr yn swydd fwy addas i ddyn. Mae Cynghorau Sgiliau Sector, darparwyr DYYG a sefydliadau fel Chwarae Teg yn gweithio i newid yr agweddau hyn sydd wedi hen ymsefydlu. Fodd bynnag, credai rhai pobl a gafodd eu cyfweld ar gyfer yr astudiaeth cylch gwaith y dylid mynd i'r afael yn fwy effeithiol â stereoteipio'r rhywiau ym mhob cyfnod o addysg a hyfforddiant.

31 Mae llawer o ddarparwyr wedi gwneud defnydd da o fodelau rôl sy'n herio stereoteipiau'r rhywiau wrth farchnata prentisiaethau ac wrth dargedu sectorau fel adeiladu, peirianneg a thrin gwallt. Mae lleiafrif o ddarparwyr wedi mabwysiadu dull mwy uniongyrchol fel ymgyfnewid dysgwyr am wythnos ar gyrsiau trin gwallt, lle ceir

[4] Elusen yw Chwarae Teg sy'n hyrwyddo datblygiad economaidd menywod yng Nghymru.

dysgwyr sy'n ferched yn draddodiadol, a chyrsiau peirianneg, lle ceir dysgwyr sy'n ddynion yn bennaf. Mae hyn wedi helpu cynyddu ymwybyddiaeth dysgwyr o beth mae gweithio ym mhob sector yn ei olygu. Hefyd, mae dysgwyr yn gallu nodi medrau y gellir eu trosglwyddo rhwng y sectorau. Fodd bynnag, dim ond ar lefel darparwyr lleol y mae'r arfer hon yn digwydd, ac nid yw'n cael ei hyrwyddo'n genedlaethol ledled Cymru. Nid oes gwerthusiad cenedlaethol o effaith mesurau i fynd i'r afael â stereoteipio'r rhywiau.

**Astudiaeth achos arfer dda: gweithio yn erbyn stereoteipio'r rhywiau**

Mae un darparwr wedi cynnal clybiau Sadwrn i annog merched ifanc i ymgymryd â phrentisiaethau peirianneg. Un o lwyddiannau'r clybiau Sadwrn oedd myfyrwraig a enillodd Gwobr Prentis y Flwyddyn 2012 yng ngwobrau Busnes Sir y Fflint. Cyflawnodd raddau rhagoriaeth yn y rhan fwyaf o'i gwaith ac mae'n cael ei gweld gan y cwmni gweithgynhyrchu mawr y mae'n gweithio iddo fel model rôl da ar gyfer annog merched eraill i weithio ym maes gweithgynhyrchu. Erbyn hyn, mae'n sôn am ei phrofiadau wrth grwpiau o ddisgyblion ysgol fel rhan o'r gwaith gyda'r cwmni. Yn yr un darparwr, mae prentis arall sy'n ferch a oedd yn dilyn cwrs cerbydau modur wedi cyrraedd rownd derfynol y DU mewn cynllun gwobrau prentisiaeth cenedlaethol. Hi yw'r ferch gyntaf i wneud hynny yng Nghymru.

32 Mae Cynghorau Sgiliau Sector[5], gan gynnwys y rhai sy'n gyfrifol am adeiladu, peirianneg a diwydiannau'r tir, yn parhau'n rhagweithiol o ran mynd i'r afael â stereoteipio'r rhywiau. Mae Women into Science and Engineering (WISE), yn sefydliad yn y DU sy'n helpu sefydliadau eraill i annog merched i fynd ar drywydd gyrfaoedd gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg, gyda'r nod o gynyddu cydbwysedd y rhywiau yng ngweithlu'r DU yn y meysydd hyn o 13% i 30% erbyn 2020. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i fesur effaith y fenter hon hyd yma.

33 Dros yr 20 mlynedd diwethaf, mae Chwarae Teg wedi bod yn gweithio gyda staff addysgu mewn ysgolion cynradd i gynyddu ymwybyddiaeth o stereoteipio'r rhywiau. Hefyd, mae'r elusen wedi cynnal rhaglen yn llwyddiannus ar gyfer ysgolion ynglŷn â rôl merched sy'n gweithio ym meysydd gwyddoniaeth a pheirianneg.

34 Fodd bynnag, er gwaethaf ymdrechion gorau darparwyr lleol, mentrau lleol ac ymgyrchoedd cenedlaethol, ychydig o effaith fu ar nifer y merched a'r dynion sy'n dilyn llwybrau cyflogaeth anhraddodiadol. Mae gwrthwynebiad diwylliannol o hyd i newid y stereoteipiau rhywiol sy'n gysylltiedig â chyrsiau traddodiadol mewn addysg a hyfforddiant, yn enwedig mewn trin gwallt, adeiladu a pheirianneg.

---

[5] Sefydliadau a arweinir gan gyflogwyr ar gyfer diwydiannau penodol yw'r Cynghorau Sgiliau Sector. Mae eu cylch gwaith yn cynnwys cynorthwyo cyflogwyr wrth ddatblygu a rheoli safonau prentisiaethau.

## Marchnata prentisiaethau

35 Mae strategaethau marchnata gan fwyafrif y darparwyr DYYG ar hyn o bryd sy'n cynnwys hyrwyddo prentisiaethau i grwpiau lleiafrifol a dysgwyr anabl, ynghyd â dulliau i fynd i'r afael â stereoteipio'r rhywiau. Cyfyngedig yw effeithiolrwydd y marchnata hwn, fodd bynnag, ac ychydig o effaith mae'n ei chael o fewn rhai cymunedau lleiafrifol.

36 Hefyd, ychydig o fodelau rôl presennol sydd o'r gymuned pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig y gall darparwyr eu defnyddio i hyrwyddo prentisiaethau. Mae darparwyr yn cydnabod yr angen i weithio gyda chyrff cynrychioliadol pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a adnabyddir yn lleol er mwyn helpu trosglwyddo'r neges ynglŷn â phrentisiaethau i gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Maent hefyd yn cydnabod yr angen i fabwysiadu dull tebyg ar gyfer dysgwyr ag anabledd, sef cynnwys sefydliadau perthnasol sy'n cynrychioli'r dysgwyr hyn mewn ymgyrch farchnata genedlaethol.

37 Mae darparwyr yn adrodd yn gyffredinol eu bod yn gallu gweld buddion mewn ymgyrch farchnata genedlaethol sy'n:

- cynnwys ysgolion, gwasanaethau gyrfaoedd, darparwyr DYYG a chyflogwyr lleol;
- annog ac yn cefnogi pob ysgol i fynd ati'n weithredol i hyrwyddo prentisiaethau ac sy'n gweithio mewn partneriaeth â gwasanaethau gyrfaoedd, darparwyr DYYG a chynrychiolwyr cyflogwyr lleol fel y Ffederasiwn Busnesau Bach;
- dangos parch cydradd rhwng llwybrau galwedigaethol ac academaidd i'r holl gymunedau dysgwyr;
- tynnu sylw at fuddion cyflogaeth dilyn llwybr prentisiaeth; ac sy'n
- cymharu ac yn tynnu sylw at gostau ariannol llwybrau academaidd a phrentisiaethau.

## Gweithredu Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Llywodraeth Cymru gan ddarparwyr DYYG

38 Mae mwyafrif y darparwyr DYYG yng Nghymru wedi gwneud defnydd da o arweiniad Llywodraeth Cymru ar sut i ddatblygu'u polisïau eu hunain ar gyfer Cydraddoldeb ac Amrywiaeth. Maent wedi sefydlu gweithgorau i sicrhau eu bod yn parhau i gydymffurfio â'r arweiniad ac â'u polisïau. Mae hyfforddiant staff da yn nodwedd reolaidd o'u gweithgareddau.

39 Mae ychydig o ddarparwyr wedi gwella'u prosesau a'u gweithdrefnau ymhellach drwy ymgymryd â dyfarniadau arfer orau fel:

- y Dyfarniad Buddsoddwr mewn Amrywiaeth;
- Gwobr Safon Aur Cydraddoldeb; a
- Gwobr Ymrwymedig i Gydraddoldeb (C2E).

**Astudiaeth achos arfer dda: hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn gadarnhaol**

CITB - Mae Sgiliau Adeiladu wedi datblygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol, sy'n cynnwys camau gweithredu clir ar gyfer cynhwysiant, cyflawniad, dilyniant a mwynhad dysgu. Mae'r cynllun wedi'i osod yn erbyn y prif drywyddau cydraddoldeb ac fe'i cefnogir gan grŵp Arweinyddiaeth Tegwch, Cynhwysiant a Pharch y darparwr, a arweinir gan gyfarwyddwr y cwmni. Mae hefyd wedi datblygu pecyn offer Mesurau Effaith Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, sy'n defnyddio data demograffig a data ar raglenni i osod targedau ac i fonitro ac arfarnu cynhwysiant, cyflawniad a chynnydd dysgwyr.

Mae'r mentrau hyn wedi cael cydnabyddiaeth trwy gyflawni Gwobr Safon Aur Cydraddoldeb (Cydraddoldeb y Gogledd Ddwyrain). Hefyd, mae'r darparwr wedi cyflawni'r wobr Ymrwymedig i Gydraddoldeb (C2E) yng Nghymru. Mae'r Wobr Safon Aur Cydraddoldeb yn cydnabod sefydliadau sy'n cynllunio ac yn hyrwyddo arferion cydraddoldeb ac amrywiaeth da yn y gweithle. Mae C2E yn Safon Gydraddoldeb Genedlaethol, sy'n galluogi sefydliadau i gyrraedd eu targedau cydraddoldeb.

## Atodiad 1: Dadansoddi data

### Nodiadau am dablau a siartiau

**Ffynonellau data:**

Cafwyd Ffigur 1 o Gyfrifiad 2011 a chafwyd ffigur 2 o Gyfrifiad 2011 a Chofnod Dysgu Gydol Oes Cymru fel ei gilydd. Cafwyd Ffigurau 3-7 o Chofnod Dysgu Gydol Oes Cymru.

**Nodweddion (tarddiad ethnig, anabledd a rhyw):**

Mae Ffigurau 1-4 yn dangos dadansoddiad o'r data yn ôl tarddiad ethnig. Mae Ffigur 5 yn dangos dadansoddiad yn ôl anabledd. Mae Ffigurau 6-7 yn dangos dadansoddiad yn ôl rhyw.

Y pum prif gategori tarddiad ethnig a ddefnyddir yn y cyfrifiad yw Gwyn, Cymysg/grwpiau aml-ethnig, Asiaidd/Asiaidd Prydeinig, Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig, a grŵp ethnig Arall. Mae is-gategorïau o fewn pob categori, er enghraifft Gwyn: Seisnig/Cymreig/Albanaidd/Gwyddel/Gwyddeles o Ogledd Iwerddon/Prydeinig, Gwyn: Gwyddelig, Gwyn: Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig a Gwyn: Gwyn arall. Gellir cael mwy o wybodaeth am darddiad ethnig yn y cyfrifiad yn http://www.ons.gov.uk/ons/guide-method/measuring-equality/equality/ethnic-nat-identity-religion/ethnic-group/index.html.

Defnyddir 14 o is-gategorïau tarddiad ethnig yng Nghofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (ynghyd â dau is-gategori ar gyfer 'Gwybodaeth wedi'i gwrthod' a 'ddim yn hysbys'). Gellir cydgrynhoi'r 14 categori tarddiad ethnig i roi pum prif gategori tarddiad ethnig, sydd yn fras yn adlewyrchu'r pum prif gategori tarddiad ethnig yn y cyfrifiad. Dyma'r dull a ddefnyddiwyd ar gyfer y data a ddangosir yn ffigur 2. Gellir cael rhagor o wybodaeth am y maes tarddiad ethnig o Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (yr enw maes yw LN17) yn y Llawlyfr Cymorth Defnyddwyr yn http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/learningproviders/datacollection/llwr09/llwrmanuals/?skip=1&lang=cy

Mae holl ddata Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru yn ôl tarddiad ethnig, anabledd a rhyw yn ymwneud â nodweddion hunanasesedig y dysgwyr. Er enghraifft, mae ffigur 5 yn dangos statws anabledd dysgwr, fel y pennwyd gan y dysgwr.


Mae data Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru yn adlewyrchu niferoedd y dysgwyr ag anabledd a/neu anhawster dysgu (yn seiliedig ar hunanasesiad) sy'n effeithio ar eu gallu i ddysgu a/neu ddefnyddio cyfleusterau cyffredinol.

**Cyfrifiadau prentisiaethau yng Nghofnod Dysgu Gydol Oes Cymru:**

Mae data Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru ar brentisiaethau a ddefnyddiwyd yn ffigurau 2, 4, 6 a 7 yn ymwneud â gweithgareddau dysgu a gwblhawyd.

Mae data Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru ar brentisiaethau a ddefnyddiwyd yn ffigurau 3 a 5 yn ymwneud â chyfrifiadau rhaglenni dysgu 'mewn dysgu' yn ystod 2011-2012. Hon yw nifer y prentisiaethau yr ymgymerir â nhw naill ai'n gyflawn neu'n rhannol yn ystod y flwyddyn academaidd (1 Awst 2011 i 31 Gorffennaf 2012).

**Ffigur 1: Canran y rhai 16 i 24 oed a oedd yn bobl dduon neu o darddiad lleiafrifol ethnig, yn ôl awdurdod lleol yng Nghymru, 2011 (a) (b)**




Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

(a) Mae'n cynnwys Cymysg/grwpiau aml-ethnig, Asiaidd/Asiaidd Prydeinig, Du/Affricanaidd/Caribïaidd/ Du Prydeinig, a grŵp ethnig Arall. Nid yw'n cynnwys Gwyn nag unrhyw un o'i is-gategorïau (Gwyn: Seisnig/ Cymreig/ Albanaidd/Gwyddel/Gwyddeles o Ogledd Iwerddon/Prydeinig, Gwyn: Gwyddelig, Gwyn: Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig a Gwyn: Gwyn arall).

(b) Caiff myfyrwyr eu cyfrif yn eu cyfeiriad yn ystod y tymor.

Mae gan Gaerdydd gyfran fwy o bobl ifanc duon a lleiafrifoedd ethnig 16 i 24 oed nag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, ac fe'i dilynir gan Gasnewydd ac Abertawe. Fodd bynnag, mae cafeat ynglŷn ag effaith y poblogaethau myfyrwyr mawr o fewn ac o amgylch Caerdydd, Casnewydd ac Abertawe, am y caiff myfyrwyr eu cyfrif yn eu cyfeiriad yn ystod y tymor yn nata'r cyfrifiad.

**Ffigur 2: Cyfran y prentisiaethau yn 2011-2012 yn ôl tarddiad ethnig, o gymharu â'r boblogaeth gyffredinol**


| Prif gategori tarddiad ethnig | Prentisiaethau yn 2011/12 (Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru) (a) | Poblogaeth 16 i 24 oed yng Nghymru (Cyfrifiad 2011) |
|---|---|---|
| Gwyn | 97.0 | 93.4 |
| Du | 0.7 | 0.8 |
| Asiaidd | 1.4 | 3.6 |
| Cymysg | 0.6 | 1.6 |
| Cefndir ethnig arall | 0.3 | 0.7 |

Ffynonellau: Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru, Cyfrifiad 2011 – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

(a) Nid yw'n cynnwys tarddiad ethnig anhysbys. Gellir cael mwy o wybodaeth am y categorïau tarddiad ethnig a ddefnyddir yma yn yr adran Nodiadau ar flaen yr atodiad hwn.

Yn 2011-2012, dim ond 3% o ddysgwyr (pob oed) a ymgymerodd â phrentisiaethau a oedd o grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, o gymharu â chanran y boblogaeth pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig 16 i 24 oed ar gyfer Cymru, sef 6.6%. Fodd bynnag, mae rhai cafeatau wrth wneud y cymariaethau rhwng Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru a Chyfrifiad 2011 (gweler yr adran nodiadau ar ddechrau'r atodiad hwn i gael mwy o wybodaeth).

**Ffigur 3: Canran y prentisiaid a oedd yn ddu neu o darddiad lleiafrifol ethnig, yn ôl maes pwnc sector, 2011-2012 (a)**





Ffynhonnell: Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru, Llywodraeth Cymru

(a) Mae du a tharddiad lleiafrifol ethnig yn cynnwys du, Asiaidd, cymysg a grwpiau ethnig arall.

Mae'r ffigurau hyn yn ymwneud â'r dysgwyr hynny o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig 'mewn dysgu' ar raglenni prentisiaeth yn ystod 2011-2012. Mae'r niferoedd gwirioneddol, fel y'u dangosir yn y siart blaenorol, yn wahanol gan y gall dysgwyr fod yn ymgymryd â dysgu mewn nifer o sectorau. Fodd bynnag, mae'r ganran gyffredinol o ddysgwyr duon a lleiafrifoedd ethnig mewn prentisiaethau yn parhau ar 3%, pa set ddata bynnag a ddefnyddir. Y sectorau â'r cyfrannau mwyaf o ddysgwyr o'r gymuned pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yw Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal ac Addysg a Hyfforddiant.

**Ffigur 4: Canran y prentisiaid a oedd yn ddu neu o darddiad lleiafrifol ethnig, 2011-2012**





Ffynhonnell: Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru, Llywodraeth Cymru

Mae'r siart hwn yn cynnwys data ar bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig ar gyfer darparwyr yr ymwelwyd â nhw yn yr adroddiad thematig hwn (darparwyr yn yr ardaloedd â'r boblogaeth pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig uchaf yng Nghymru).

Fel y dangosir yn ffigur 2, mae cyfran is o ddysgwyr duon a lleiafrifoedd ethnig ar raglenni prentisiaeth na'r boblogaeth pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig 16 i 24 oed o Gyfrifiad 2011.

Noder: Nid oes unrhyw ddata tarddiad ethnig ar gael ar gyfer Babcock Training, sef yr ail ddarparwr yng Nghasnewydd ochr yn ochr ag A4E, nag ar gyfer Coleg Gŵyr, sy'n gweithredu yn ardal Abertawe.

**Ffigur 5: Canran y prentisiaid a oedd yn anabl – rhaglenni dysgu prentisiaeth "mewn dysgu", 2011-2012 (a)**




Ffynhonnell: Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru, Llywodraeth Cymru


(a) Mae'r data ar anabledd yn ymwneud â niferoedd y dysgwyr ag anabledd a/neu anhawster dysgu (yn seiliedig ar hunanasesiad) sy'n effeithio ar eu gallu i ddysgu a/neu ddefnyddio cyfleusterau cyffredinol.

Mae'r ffigurau ar gyfer dysgwyr sydd wedi dosbarthu eu hunain fel dysgwyr anabl 'mewn dysgu' yn adlewyrchu'r rheini ar gyfer dysgwyr o'r gymuned pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, sef 3%. Fodd bynnag, rhaid cymryd y ganran uwch o ddysgwyr anabl sy'n dilyn prentisiaethau mewn Amaethyddiaeth, Garddwriaeth a Gofal Anifeiliaid a'r Celfyddydau, Cyfryngau a Chyhoeddi yn gyffredinol o fewn cyd-destun niferoedd bach yr holl ddysgwyr yn y sectorau hyn.

## Nodyn ar ddata

Yn 2010, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru arweiniad ar sut y dylai dysgwyr nodi'u hunain fel pobl ag anabledd. Mae darparwyr yn cofnodi anabledd yng Nghofnod Dysgu Gydol Oes Cymru ar sail hunanasesiad dysgwyr. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd dod i gasgliadau ynglŷn â materion anabledd o'r data. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf a ddilyswyd o Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru yn dangos bod dysgwyr sy'n nodi'u hunain fel pobl ag anabledd yn cyfrif am 3% o brentisiaethau yn 2011-2012. Fodd bynnag, mae gwahaniaethau yn y modd y caiff y data ei gasglu yn ei gwneud hi'n anodd ffurfio barnau cyffredinol ynglŷn â'r niferoedd o ddysgwyr ag anabledd sydd ar brentisiaethau, neu i berthnasu hyn â niferoedd yn y boblogaeth yn gyffredinol. Mae Llywodraeth Cymru'n rhoi canllawiau clir ar gyfer y data y mae'n ei gasglu, ond nid oes unrhyw sicrwydd bod darparwyr yn cymhwyso'r holl arweiniad hwn yn yr un ffordd wrth gyflwyno'u data. Caiff cwestiynau'r cyfrifiad a ffigurau cyflogaeth eu casglu gan ddarparwyr hefyd gan ddefnyddio meini prawf gwahanol, felly mae'n amhosibl gwneud cymariaethau uniongyrchol.

**Ffigur 6: Nifer y prentisiaethau yng Nghymru, yn ôl rhyw, 2009-2010 i 2011-2012 (a)**





Ffynhonnell: Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru, Llywodraeth Cymru

(a) Mae prentisiaid heb gategori rhyw wedi'i gofnodi yng Nghofnod Dysgu Gydol Oes Cymru wedi'u hepgor o'r siart hwn.

Mae nifer uwch o ferched yn cwblhau prentisiaethau yng Nghymru na dynion. Yn y tair blynedd mwyaf diweddar o ddata, mae dynion wedi cyfrif am rhwng 42% a 44% o ddysgwyr ar brentisiaethau.

**Ffigur 7: Nifer y prentisiaethau, yn ôl maes pwnc sector, 20112012 (a)**




Ffynhonnell: Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru, Llywodraeth Cymru

(a) Yn 2011-2012, nid oedd dadansoddiad rhywiau ar gael ar gyfer y 334 o brentisiaethau yng Ngholeg Gŵyr Abertawe, felly nid yw'r rhain wedi'u dangos yn y siart.
(b) Nid yw'r Celfyddydau, y Cyfryngau a Chyhoeddi wedi'i ddangos yn y siart oherwydd niferoedd bach, ond mae wedi'i gynnwys yn y cyfanswm ar gyfer yr holl brentisiaethau.

## Atodiad 2: Rhwystrau rhag prentisiaethau – holiadur i ddarparwyr

1 Pa gamau ydych chi wedi'u cymryd i roi arweiniad Llywodraeth Cymru ar bolisïau DYYG, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar waith?

| |
|---|
| |

2 Pa newidiadau ydych chi wedi'u gwneud, os o gwbl, i'ch polisïau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth presennol o ganlyniad i arweiniad Llywodraeth Cymru?

| |
|---|
| |

3 Faint o ddysgwyr anabl y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd sy'n cyfranogi mewn rhaglenni Prentisiaeth ar hyn o bryd? Nodwch y niferoedd yn ôl sector unigol a rhyw.

| |
|---|
| |

4 Beth yn eich barn chi yw'r rhwystrau sy'n wynebu pobl dduon, lleiafrifoedd ethnig a'r anabl o ran ymgymryd â Phrentisiaethau (gwirioneddol a/neu ganfyddedig)?

| |
|---|
| |

5 Beth yn eich barn chi ddylid ei wneud i fynd i'r afael â'r rhain, ac a oes gennych strategaethau ar waith i ddwyn y rhain yn eu blaenau? Os oes, rhowch fanylion.

| |
|---|
| |

6 A ydych chi'n teimlo eich bod yn deall anghenion grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a phobl anabl er mwyn darparu'r cymorth sydd ei angen arnynt? Os ydych, sut daethoch chi i'r ddealltwriaeth hon? Os nad ydych, pa gamau ydych chi'n meddwl y mae angen i chi eu cymryd i ddeall eu hanghenion yn well, ac i wella'u hymgysylltiad mewn rhaglenni prentisiaeth?

| |
|---|
| |

7 Rhowch fanylion unrhyw enghreifftiau o arfer orau, y gellir eu rhannu ar draws y sector, i fynd i'r afael â rhwystrau rhag prentisiaethau ar gyfer grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a'r anabl.

| |
|---|
| |

8 Beth yw eich awgrymiadau ar gyfer marchnata prentisiaethau i grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a'r anabl?

| |
|---|
| |

9 Pa rai o'ch sectorau sy'n parhau i ddangos stereoteipio'r rhywiau? Dywedwch pa faint sydd, a rhowch fanylion unrhyw gamau rydych yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r mater hwn.

| |
|---|
| |

10 Unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud?

| |
|---|
| |

## Atodiad 3: Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg

| | |
|---|---|
| Bernard W O'Reilly – AEM | Awdur yr adroddiad cylch gwaith |
| Mark Evans – AEM | Aelod tîm |
| Bernard Hayward – AEM | Aelod tîm |